# PORTAL 2026

LLANTARNAM GRANGE
SINCE 1966

LLANTARNAM GRANGE

ERS 1966 SINCE 1966

# CYNNWYS

RHAGAIR 02
CYFLWYNIAD 03
ABI HARVERSON 04
EDIE CARNEY 06
FRIDAY LAWRENCE 08
IARA TALLEDO VIOLANI 10
IESTYN DAVIES 12
IRIS MURRAY 14
JESSICA THEOBALD 16
JONAS TEW 18
LAURA NICHOLLS 20
LAUREN DEGG 22
OLIWIA CIABASZEWSKA 24
RHIAN LEWIS 26
SAM DOWLING 28
SOPHIE CRIDLAND 30
TWIG SEARLE 32
DIOLCHIADAU 34

# RHAGAIR

**Dydw i fyth yn blino ar Portal. Mae pob blwyddyn yn dod â charfan newydd o raddedigion i'r oriel gyda'u syniadau beiddgar a'u ffyrdd gwreiddiol o edrych ar y byd. Mae cyffro hyfryd o weithgaredd wrth i'r gwaith terfynol gael ei gwblhau a'i arddangos am y tro cyntaf: dathliad haeddiannol o'r blynyddoedd o waith caled a'r angerdd.**

Ar hyd y blynyddoedd, rydym wedi mireinio'r broses o drefnu a churadu Portal er mwyn iddi fod yn brofiad dysgu cadarnhaol. Gobeithiwn fod hyn yn gwrthbwyso'r ansicrwydd wrth barhau ag ymarfer celf ar ôl byd addysg. Mae Portal yn cynnig man lle gellir profi syniadau, cwrdd â chynulleidfaoedd a dechrau ystyried y cwestiwn mawr 'Beth nesaf?'

Mae carfan eleni yn arbrofi gyda deunydd, dweud storïau, hunaniaeth, lle ac atgofion diwylliannol, gan gysylltu traddodiad â phrofiad personol ac a rennir. Mae pob myfyriwr graddedig wedi cyfrannu eu brwdfrydedd, gofal a'u hymdeimlad cryf o ymarfer proffesiynol at y broses – a dyna'r cyfan y gallwn ofyn amdano. Mae'n gwneud i mi deimlo'n llawn cynnnwrf wrth gael cydweithio gyda phob unigolyn ar y foment bwysig hon, ac rwy'n edrych ymlaen at weld sut fydd eu gwaith yn parhau i ddatblygu y tu hwnt i'r arddangosfa.

**Savanna Dumelow**
Swyddog Arddangosfeydd Llantarnam Grange

# CYFLWYNIAD

***Portal* yw ein harddangosfa flynyddol o grŵp o artistiaid a gwneuthurwyr graddedig, a'i nod yw datgyfrinio gweithio yn y celfyddydau. Trwy roi cymorth, offer a'r cyfle i ddatblygu sgiliau i leisiau newydd, mae *Portal* yn ymestyn y tu hwnt i waliau'r oriel gan roi'r cychwyn gorau posibl i artistiaid datblygol wrth iddynt sefydlu gyrfaoedd cynaliadwy.**

Trwy glwstwr o arferion sy'n amrywio o gerameg, peintio, cerflunwaith, darlunio, gwydr a ffilm, mae *Portal 2026* yn arddangos casgliad o waith 15 o raddedigion eleni. Daw'r artistiaid o sefydliadau Cymreig fel Met Caerdydd, PCDDS Abertawe ac Ysgol Gelf Caerfyrddin, ac o brifysgolion yn Lloegr fel Coleg Celf Henffordd, Prifysgol Bath Spa, Prifysgol y Celfyddydau Norwich, Ysgol Gelf Kingston a Phrifysgol Falmouth. Gobeithiwn y bydd yr arddangosfa hon yn cipio'r syniadau a'r ysbryd cyfunol sy'n dod allan o ysgolion celf eleni.

Mae'r ffordd yr ymdeimlwn â'n gilydd a'n hamgylchoedd, a beth sy'n digwydd pan na wnawn, yn greiddiol i lawer o'r gwaith a arddangosir eleni. Ceir cydbwysedd rhwng dod o hyd i gysylltiadau trwy bobl, mewn traddodiadau cymunedol, arferion gwerin, defodau a dweud storïau, a'r cysylltiadau a wnawn gyda deunyddiau.

O ymgyfuniadau annhebygol, fel cerflunwaith sy'n cyfuno cerameg ac alwminiwm ac offer sydd â ffurfiau addurnol, i'r adweithiau a'r rhyngweithiadau rhwng deunyddiau â'n cyrff neu'r ddaeareg leol, mae yna ddiddordeb a rennir mewn pwyntiau cyfarfod.

P'un ai fod y pwyntiau hyn mewn amser, fel dechrau'r haf; gwrthrychau sy'n dod â ni at ein gilydd ac yn dod yn gynwysyddion emosiynol; neu'n storïau cyfarwydd rydym yn eu hail-ddychmygu neu'n eu gwehyddu i ffibrau ffabrig, mae'r cysylltiadau hyn yn dod â chynhesrwydd, cysur a llawenydd.

Tra bod rhai artistiaid yn dathlu'r ffyrdd y down at ein gilydd, mae eraill yn ymryson â'r gwrthdaro a'r datgysylltu sy'n digwydd pan na wnawn. Mae colled a newid yn dod ag unigrwydd – ar-lein ac all-lein – i'r wyneb, tra bod canfyddiadau a phwysau cymdeithasol yn creu problemau gyda hunaniaeth. Mae rhai yn codi rhwystrau corfforol, gan gyfyngu a ffrwyno ein cyrff drwy gerfluniau i'w gwisgo, tra bod yr union syniad o golli'r traddodiadau sy'n ein cysylltu yn ddigon i sbarduno ofn mewn rhai eraill.

Fodd bynnag, mae ein dyhead am ymgysylltu yn parhau, ac mae *Portal 2026* yn dangos hyn yn uchel ac yn dawel. O ddathliadau sy'n llenwi trefi, i godi'r ffôn i alw ffrind, neu wrando ar sŵn dail yn siffrwd. Maent yn amlygu'r rhan bwysig y mae celf a diwylliant yn ei chwarae wrth ddod â phobl at ei gilydd.

# ABI HARVERSON

*Prifysgol y Celfyddydau Norwich, Darlunio BA (Anrh)*

**Mae Abi Harverson yn ddarlunydd ac yn wneuthurwr y mae ei hymarfer wedi'i wreiddio mewn gwaith beiddgar, chwareus a ysgogir gan gymeriadau – mae'n eich gwahodd i edrych eto a gwenu. Gan weithio mewn darlunio, print a saernïo, mae'n hoffi gwneud pethau y gallwch eu cyffwrdd, eu dal, a rhyngweithio â nhw, gan ddarganfod ffyrdd o gynnwys corfforoldeb yn ei holl waith.**

Mae ei gwaith graddedig yn pontio dau brosiect. Mae *Jabberwocky* yn llyfr lluniau i blant ac yn gyfres pypedau sy'n ailddychmygu cerdd glasurol Lewis Carroll drwy lens empathetig. Gan ddefnyddio collage, peintio sythweledol, a phypedau o waith llaw, mae'r prosiect hwn yn archwilio'r defnydd o wahanol dechnegau saernïo. Mae *Goblin Catchers* yn estyn ei hoffter o adeiladu bydoedd at gerflunio a phrint, gan ganolbwyntio ar goblyn tacsidermi wedi'i ffeltio â nodwydd a ffansîn risograff wedi'i rwymo â llaw sy'n smalio bod yn gatalog casgliad swyddogol.



*Dde:Goblin Catchers, 2026*
*Uchod: Jabberwocky, 2026*








# EDIE CARNEY

*Prifysgol Bath Spa, Dylunio Tecstilau ar gyfer Ffasiwn a’r Cartref BA (Anrh)*

**Mae *Pagan Poetry* yn gasgliad o ddyluniadau arwyneb wedi’u printio’n ddigidol a’u peintio â llaw ar gyfer y cartref a ysbrydolir gan ddathliadau bywiog Beltane yn Ynys Wydrin. Mae Beltane yn ŵyl Baganaidd a ddathlir ar 1af Mai i groesawu dechrau’r Haf. Mae’r dref hon yn ecsentrig beth bynnag, ac ar yr adeg hon mae’n fwrlwm o ddathlu gyda dawnsio bedwen Fai, gwisgoedd Dynion Gwyrdd, cerddoriaeth a defodau.**

Mae’r printiau’n archwilio themâu llên gwerin trwy brofiad eu dylunydd, Edie Carney, ac yn dathlu’r berthynas rhwng lleoedd a chymuned Ynys Wydrin trwy ddweud storïau gweledol, hynod. Mae Edie yn ddylunydd printiau sy’n frwd dros saernïo tecstilau a phapur wal darluniadol manwl.

Trwy ddarlunio ar decstilau traddodiadol, yn cynnwys tapestrïau canoloesol, toile de Jouy a sgarffiau persli, ynghyd â thirnodau lleol a delweddau nefolaidd swrrealaedd, mae Edie yn cyfuno myth a realaeth. Gyda darluniau pensil a gouache mynegiannol a drosglwyddir i ffabrigau organig trwy brintio digidol, mae Edie yn ceisio cadw ansawdd gwaith wedi’i saernïo â llaw a hefyd cipio rhyngweithiadau personol a’r profiad o fyw yn Ynys Wydrin.




*Chwith: Pagan Poetry: Sun Moon Star Cushions, and Toile Green Man Stripe 2026*
*Dde: Pagan Poetry: Maypole 2026*

# FRIDAY LAWRENCE

*Coleg Celf Henffordd, BA (Anrh) Dylunio Gemwaith*


**Mae Friday Lawrence yn Ddylunydd Gemwaith Cyfoes arobryn, y caiff ei hymarfer ei lywio gan ei hoffter cydol oes o'r harddwch a wêl mewn gwrthrychau gwaith metel diwydiannol ac iwtilitaraidd.**

Mae cydrannau'n sail i'w chasgliadau, gan gael ysbrydoliaeth mewn eitemau fel offer, taclau diwydiannol neu beilonau. Gan gyfuno technegau gofannu arian traddodiadol â thechnolegau modern, mae Friday yn ymwybodol ddyrchafu'r eitemau hyn a anwybyddir yn aml ac yn herio'r canfyddiadau confensiynol am emwaith. Trwy ei gwaith, mae Friday yn gobeithio ennyn chwilfrydedd sy'n ysbrydoli'r gwyliwr i afael mewn offer a bod yn greadigol.



*Dde: What's Your Measure? 2026*
*Uchod: What's Your Measure? 2026*





# IARA TALLEDO VIOLANI

*Coleg Celf Brenhinol, MA Cerameg a Gwydr*

***'sut olwg a theimlad sydd ar y rhyngrwyd?'***

**Trwy'r cwestiwn hwn, mae Iara Talledo Violani yn archwilio'i pherthynas â'r rhyngrwyd, a'r golled mae'n ei deimlo fel brodor digidol sy'n symud i fannau ar-lein sy'n fwyfwy anadnabyddadwy.**

*yn fy arddegau roedd y rhyngrwyd yn fan arbennig i mi, lle gwnes i lawer o ffrindiau ar-lein ac roedd y man yn teimlo fel cymuned*

*ond oherwydd hysbysebion, botiau, algorithmau a deallusrwydd artiffisial ac am fod y rhyngrwyd wedi symud oddi wrth fy mwrdd gwaith at y ffôn sydd bob amser yn fy mhoced, mae'r berthynas hon wedi troi'n wenwynig – mae'n gylch o fewngofnodi, gorlethu fy ymennydd, teimlo'n euog am wastraffu amser ac yna allgofnodi*

*yn y bôn, rwy'n galaru am le a oedd gynt yn gartref i mi ac rwy'n hiraethu am amser a lle na ddaw fyth yn ôl*

*cynrychiolir hyn gan dirlun dirywiol ac anghyfannedd o slwtsh digidol*

*Chwith: i abandoned my desktop in 2014 and something weird and sinister has taken over, 2026*


# IESTYN DAVIES

*Prifysgol Fetropolitan Llundain, Theatr a Ffilm BA (Anrh)*

**Mae Iestyn Davies yn cyfuno gwneud ffilmiau, ffotograffiaeth a cherddoriaeth i archwilio tirweddau cyfnewidiol De Cymru. Yn benodol, mae'n ystyried y materion amgylcheddol sy'n wynebu'r wlad ac yn archwilio'r traddodiadau gwerin Cymreig sy'n diflannu mewn cymunedau. Mae ei waith yn gosod y Gymraeg yn y rheng flaen, gan archwilio iaith leiafrifol, sinema a hunaniaeth ddiwylliannol.**

Mae'r ffilm *Lludw* yn archwilio traddodiad Cymreig y Fari Lwyd, sef arfer canol gaeaf seremonïol lle caiff penglog ceffyl addurnedig ei chludo o'r un tŷ i'r llall, gyda chanu a llunio cerddi odli (pwnco), yn y gobaith o gael eu croesawu i mewn a dod â drygioni a lwc am y flwyddyn.

Gan ddefnyddio materoliaeth fregus y Super 8, mae'r darn yn adlewyrchu'r ffordd y mae arferion yn pylu, yn ailgodi, ac yn ddibynnol ar y dirwedd a'u lluniodd. Mae'r ffilm fer a'r lluniau llonydd 35mm cysylltiedig yn archwilio'r berthynas rhwng y cof a defod, gan fyfyrio ar yr effeithiau diwylliannol posibl wrth golli'r cyfryw draddodiadau.



*Dde: Lludw (Cinder), 2026*
*Uchod: Llun llonydd o ffilm: Lludw, 2026*


# JONAS TEW

*Ysgol Gelf Caerfyrddin, BA (Anrh) Amlddisgyblaethol mewn Celf a Dylunio*

**Mae ymarfer Jonas Tew yn estyn prosesau ceramig traddodiadol i gerflunwaith cyfoes, gan archwilio sut mae deunyddiau'n cario hanesion y technegau a'u lluniodd. Trwy ddefnyddio dulliau ceramig hanesyddol, yn cynnwys llunio ar droell, llunio torchau, terra sigillata a thanio rhydwythiad, mae Jonas yn creu ffurfiau cerfluniol sy'n herio'r ffiniau rhwng crefft a cherflunwaith.**

Mae'r elfennau ceramig a'r rhai alwminiwm yn dechrau fel ffurfiau conigol wedi'u llunio â throell. Caiff un ei throi'n grochenwaith caled trwy danio rhydwythiad, tra bod y llall yn dod yn fowld clai heb ei danio, a gaiff ei llunio drwy daflu ar droell a thorchi cyn cael ei llenwi ag alwminiwm tawdd. Ar ôl tynnu'r mowld ymaith, mae'r alwminiwm bwrw yn dal pob gwasgnod torch a marc gan y taflwr am byth, gan ddiogelu hanes ffisegol gwneud cerameg o fewn defnydd diwydiannol nad yw bellach yn cynnwys clai.

Mae Jonas yn gweithio gyda'i ddeunyddiau, gan ganiatáu i'r clai a'r alwminiwm ymateb yn ôl eu priodweddau ffisegol unigol. Trwy'r broses hon, mae ei gerfluniau'n archwilio asiantaeth deunyddiau, atgof, a'r berthynas esblygol rhwng traddodiad ac arloesedd.



*Chwith: Fever of Light, 2026*
*Dde: Llun o Gynhyrchiad: Fever of Light, 2026*







# IRIS MURRAY

*Ysgol Gelf Kingston, Celfyddyd Gain BA (Anrh)*

**Mae Iris Murray yn artist Cymreig sy'n byw ar hyn o bryd yn Ne Llundain. Mae'n gweithio'n bennaf gyda cherameg gan wneud gwaith sy'n ddarluniadol ac yn chwareus. Mae ymarfer Murray yn archwilio'r berthynas rhwng bod yn gwiar, natur a pherthyn. Mae'n gofyn cwestiynau am yr hyn a ystyrir yn "naturiol" ac yn "annaturiol" a beth mae hyn yn ei ddweud am ein delfrydau.**

Mae ei gwaith yn ymwneud â pherthynas natur â'r corff. Rydym yn gwbl fodlon dathlu amrywiaeth yn y byd naturiol: yr amrywiad mewn ffurfiau planhigion a thirweddau clogyrnog. Ond eto rydym yn ei chael hi'n anodd deall bod yr un amrywiaeth yn hardd ynom ni ein hunain. Mae'n defnyddio cyffyrddadwyedd cerameg i ddathlu amherffeithrwydd, gan amlygu gwydreddau wedi cracio ac olion bysedd i ddangos harddwch amrywiaeth.



*Chwith:  i like giants (especially girl giants), 2026*
*Dde: i like giants (especially girl giants), 2026*


# JESSICA THEOBALD

*Coleg Celf Abertawe (PCDDS), Crefftau Dylunio BA (Anrh)*

**Mae Jessica Theobald yn artist gwydr a metel y mae ei hymarfer yn archwilio syniadau o gyfyngiant trwy gerflunwaith y gellir ei wisgo. Gan ddefnyddio gwydr chwyth a chopr, mae'n cyfuno arbrofi, prosesau a dysgu trwy wneud i greu gwaith sy'n cydbwyso eiddilwch a chryfder.**

Mae'r darn hwn yn parhau ag archwiliad Jessica i gyfyngiant, gan adeiladu ar syniadau blaenorol o gadwynau a chaetsys mewn ffurf fwy, y gellir ei gwisgo. Gwnaed o wydr chwyth a chopr, ac mae'n tynnu ar syniadau Briwtalaidd am onestrwydd deunyddiau, rhinweddau diwydiannol a ffurfiau strwythurol.

Mae'r cyferbyniad rhwng gwydr bregus a phwysau ac anhyblygedd copr yn creu tyndra rhwng bregusrwydd ac ataliaeth. Mae anadl yn dod yn rhan o'r deunydd, gan gipio'r broses wneud a hefyd creu cysylltiad uniongyrchol â'r corff. Pan mae'n ddisymud, mae'r darn yn teimlo'n bensaernïol ac yn sefydlog yn ei le. Pan gaiff ei wisgo, mae'n dod yn estyniad o'r gwisgwr, gan newid symudiad ac ysgogi perthynas rhwng y corff, y gwrthrych, a'i wisgo.




*Dde: Bound 1, 2026*
*Uchod: Bound 2, 2026*









# LAURA NICHOLLS

*Prifysgol y Celfyddydau Norwich, Darlunio BA (Anrh)*

**Fel darlunydd amlddisgyblaethol, dylunydd mudiant a gwneuthurwr, mae Laura Nicholls yn gweithio gyda phobl i greu gwaith sy'n addysgu, yn hysbysu ac yn difyrru.**

Caiff Laura ei hysbrydoli gan wahanol bersbectifau a dulliau o lunio lleoedd i greu ymgyrchoedd sydd yn dehongli sgyrsiau amserol, cyflwyno negeseuon sy'n ysgogi meddwl, annog dealltwriaeth, neu ond yn ceisio difyrru rhywun drwy ryngweithiadau cymdeithasol doniol.

Drwy waith sy'n archwilio unigrwydd mewn pobl hŷn a Men's Sheds, mae Laura'n ymddiddori mewn adeiladu a chydweithrediad cymunedol, ac mae'n awyddus i gyfathrebu â chynulleidfaoedd boed mawr neu fach.



*Dde: The Elderly Gentleman 2026*
*Uchod: Set Diorama Social Spaces Save Lives, 2026*


THE PAP
LONELINESS
EPIDEMIC
CRISI
THE PAPER




# LAUREN DEGG

*Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Artist Dylunydd: Gwneuthurwr BA (Anrh)*

**Mae Lauren Degg yn artist ac yn wneuthurwr ym Mryste sy'n arbrofi gyda goleuni a materoliaeth i greu gosodiadau ymdrochol sy'n gwahodd enydau o lonyddwch a myfyrdod.**

Gan ddefnyddio techneg a ddatblygodd gydag edau a glud, mae'n llunio ffurfiau tri dimensiwn cain sy'n trawsnewid goleuni trwy symudiad a lliw llachar. Mae'r gosodiad hwn yn archwilio enydau diflanedig mewn natur, fel deilen hydref yn cwympo, gan ein cynnwys yn y foment bresennol. Drwy ddefnyddio delweddau a lliw a ysbrydolir gan yr hyn sy'n golygu diogelwch a chysur iddi, mae ei gwaith yn ceisio ailgreu'r profiadau hyn, gan feithrin llonyddwch ac ymdeimlad o'r hanfodion.

Mae Lauren yn cyfuno sidan wedi'i ailbwrpasu ac edau organsa gyda glud startsh gwenith i greu'r ffabrig tryleu a ddefnyddir i greu pob teilsen. Mae symudiad byrlymog y teils a'r sŵn siffrwd yn ymgyfuno i greu profiad synhwyraidd, ymdrochol sy'n annog y gwylwyr i seibio ac ailgysylltu â'r presennol.



*Chwith: Thread Spinners, 2026*
*Dde: Thread Spinners, 2026*

# OLIWIA CIABASZEWSKA

*Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Celfyddyd Gain BA (Anrh)*

**Mae Oliwia Ciabaszewska yn artist cyfryngau cymysg a chaiff ei hymarfer ei lywio gan reddf a mynegiant isymwybodol. Gan weithio gyda phaent, ffabrig a cherflunio, mae'n archwilio'r perthnasoedd rhwng systemau naturiol, y corff a'r cof trwy ffurfiau biomorffig dychweliadol.**

Mae'r gosodiad hwn yn cyfuno hyd crog o ffabrig tryleu wedi'i chwistrellu â phaent, ynghyd â cherflun ceramig. Mae'r motiff sbinol disgynnol yn effro arlliwiau organig, tra bod y ffabrig tryloyw yn hongian fel fêl, gan ymateb i gerhyntau aer gyda symudiadau sy'n dynwared anadlu tawel. Mae'r ffurf geramig yn atseinio strwythur fertebrâu, gan ddaearu'r brethyn a hefyd effro twf naturiol.

Gyda'i gilydd, mae'r gweithiau'n llenwi bwlch rhwng yr anatomegol a'r amwys, gan archwilio'r berthynas rhwng eiddilwch a pharhauster. Trwy ailwneud, deunydd, a graddfa, mae'r gosodiad yn gwahodd arsylwi araf ac yn annog y gwylwyr i fyfyrio ar y cysylltiadau cudd rhwng y corff, y cof a'r byd naturiol.



*Dde: Ecdysis II, 2026*
*Uchod: Ecdysis I and II, 2026*






ASHES TO ASHES
DUST TO DUST
I HAD A DREAM




# RHIAN LEWIS

*Prifysgol Metropolitan Caerdydd, MA Cerameg a Gwneuthurwr*

**Mae Rhian Lewis yn wneuthurwr ac yn artist cerameg y mae ei hymarfer yn cyfuno slabiau clai addurnedig wedi'u mewnosod i fowldiau plastr â chastio slip priddwaith traddodiadol i greu llestri cerfluniol a ffurfiau ffigurol.**

Mae'r lliwiau tanwydredd cyfoethog, y delweddau printiedig a'r testun wedi'i ysgrifennu â llaw yn adeiladu arwynebau haenog sy'n cydbwyso hiwmor â bregusrwydd. Trwy wrthrychau ceramig sy'n gweithredu fel cynwysyddion emosiynol, mae ei gwaith yn archwilio atgof, hunaniaeth a'r gwrthddywediadau mewn profiad bob dydd, gan wahodd gwylwyr i seibio, cwestiynu ac edrych yr eilwaith.

Daw ffurfiau cyfarwydd yn fan cychwyn ar gyfer sgyrsiau ynglŷn â galar, gwydnwch, gofal a chymhlethdod bod yn ddynol. Mae byw gyda Sglerosis Ymledol yn llywio'r amodau y mae Rhian yn gweithio ynddynt, gan fod ymaddasu, ymyriadau a chyflyrau corfforol newidiol yn dod yn rhan annatod o'r broses wneud. Mae wynebu'r elfennau mewn cerameg sy'n cael eu dileu fel arfer yn creu cynfas unigryw, sy'n caniatáu i ddiferion, gollyngiadau, sbrigiau a gormodedd o glai lywio datblygiad pob darn.




*Chwith: Ashes To Ashes; In My Head, 2026*
*Dde: I've Been Quietly Waiting For Myself, 2026*

# SAM DOWLING

*Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd, Cerameg BA (Anrh)*

**Mae Sam Dowling yn grochenydd sy'n arbrofi'n barhaus â deunydd i geisio cynnwys elfennau daearegol lleol Cernyw. Mae'n archwilio deunydd tirwedd o fewn ac ar borslen a llestri crochenwaith caled wedi'u llunio â throell gicio, gan daflu'r rhain fel bod ganddynt ymyl llydan a throed gul. Mae'r ffurfiau hyn yn aflunio yn ystod y broses danio â soda, gan beri i'r ymylon rolio fel y bryniau symudol ar y gorwel. Mae'r profiad corfforol o weithio ar y droell gicio Leach yn adlewyrchu'r weithred rythmig o gerdded trwy'r tir.**



Mae Sam hefyd yn chwilio am ddeunyddiau a gyrchir yn lleol ar gyfer cynhwysion gwydro, yn cynnwys: gwenithfaen gweundir, llechi arfordirol, lludw coed afalau, gellyg ac eirin, tywod traeth, a chlai gwyllt a gesglir o gwmpas Aber Camel, Cernyw. Trwy hyn, mae'n dyfnhau ei ddealltwriaeth o gyfansoddiad deunyddiau'r ardal.

Gan danio gwaith mewn odyn soda sy'n rhedeg ar nwy, mae Sam yn chwilio am amrywiad atmosfferig ar draws arwynebau pob darn. Trwy rinweddau arwyneb unigryw, mae'n ceisio dweud stori deunyddiau ac ailosod tirwedd Cernyw mewn ymarfer ceramig cyfoes.

*Dde: Moorland, 2026*
*Uchod: Moorland; Coastal, 2026*







# SOPHIE CRIDLAND

*Prifysgol Gorllewin Lloegr, BA (Anrh) Celfyddyd Gain*

**Mae Sophie yn defnyddio strociau brwsh mynegiannol a thonau pastel i ddangos profiad cymhleth a chywrain menywod. Gan dynnu ar bwysau cymdeithasol, y gwrthddywediadau mewn ôl-ffeministiaeth a'r profiad o dyfu i fyny mewn teulu Pabyddol, mae Sophie yn dyrannu hunaniaeth menywod drwy bortreadu mynegiannol.**

Caiff Sophie ei hysbrydoli gan y ffeministiaid Sandra Lee Barkley a Judith Butler i archwilio'r lluoedd o fenywod trwy ddarluniau arddullaidd, unigryw sy'n defnyddio paent acrylig wedi'i wanhau i greu effaith fyrhoedlog.

Mae *Fairy* yn ddarlun sy'n rhannu agweddau o'i hunaniaeth y gellid eu hystyried yn "rhy hurt" neu'n "blentynnaidd." Mae'n defnyddio lliwiau pastel a thonau gemaidd i ddangos y llawenydd a'r harddwch mewn cofleidio benyweidd-dra. Trwy gyflwyno agweddau ohoni hi ei hunan, mae Fairy yn ceisio dangos y cryfder mewn ymryddhau oddi wrth sylliad pobl eraill a dod yn rhydd yn y diwedd i fod yn chi eich hun.

*Chwith:Fairy, 2026*

# TWIG SEARLE

*Prifysgol Falmouth, Dylunio Tecstilau BA (Anrh)*

**Mae *A Library in Thread* yn ddehongliad wedi'i wehyddu o storïau gwerin o bob rhan o Ynysoedd Prydain, sy'n trosi myth, chwedl a hanesion llafar yn frethyn. Trwy strwythur, patrwm a darlunio, mae pob tecstil yn dod yn rhan o archif gweledol ehangach, gan ailddychmygu dweud storïau fel dyluniad wedi'i wehyddu cyfoes.**

Mae dau is-gasgliad yn cipio gwahanol donau llên gwerin, gan ddefnyddio gwehyddu i ddiogelu ac ailadrodd atgofion diwylliannol. Mae'r Lliwiwr a'r Llysieuydd yn archwilio'r berthynas rhwng llifynnau planhigion a gasglwyd yn naturiol, gwlân a dweud storïau. Ar y cyd â stori tylwyth teg hunan-ysgrifenedig, mae'r prosiect yn dangos sut mae deunyddiau naturiol lleol yn trawsnewid i baletau lliw cynnil yn y tri is-gasgliad wedi'u gwehyddu. Trwy gasglu, llifo a gwehyddu, mae'n dathlu gwneud cynaliadwy, crefft draddodiadol a chysylltiad dwfn â lle.

Gyda'i gilydd, mae'r ddau gasgliad yn archwilio tecstilau fel llestri sy'n dal naratif, treftadaeth a gwybodaeth am ddeunyddiau, gan greu gweithiau wedi'u gwehyddu sydd wedi ymwreiddio mewn proses, awyrgylch a dweud storïau.



*Dde: Credence, 2025*
*Uchod: Arma Triptych, Pierced, 2025*



# DIOLCHIADAU

**Portal 2026**
**Arddangosfa gan Llantarnam Grange**
Cyhoeddwyd gan Llantarnam Grange ©LG 2026

Mae Llantarnam Grange yn rhan o ‘Bortffolio Celfyddydol Cymru’ Cyngor Celfyddydau Cymru. Elusen Gofrestredig rhif: 1006933. Cwmni Preifat a Gyfyngir drwy Warant: 2616241

Ariennir Llantarnam Grange gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

Ni chaniateir atgynhyrchu’r cyhoeddiad hwn fel cyfanwaith neu’n rhannol ar unrhyw ffurf heb gydsyniad ysgrifenedig gan y cyhoeddwr.

**Gyda diolch i:**
Dewiswyr Gwadd:
Toni De Jesus, Artist Cerameg
Ellen Wilson, Cyd-Gyfarwyddwr – Pobl Ifanc a Rhaglen, Peak Cymru
Cyngor Celfyddydau Cymru a Gyngor Bwrdeisdref Sirol Torfaen.

**Llantarnam Grange**
Heol Dewi Sant, Cwmbrân
Torfaen, NP44 1PD

**01633 483321**
**llantarnamgrange.com**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

TORFAEN COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL TORFAEN